Adroddiad Arolygu ar gyfer
Gwasanaeth Mabwysiadu Rhanbarthol Bae'r Gorllewin

**This report is also available in English**
**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cyhoeddi

**Dydd Mawrth, 8 Mai 2018**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2018*** *Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau Trwydded Agored y Llywodraeth. Gallwch weld Trwydded Agored y Llywodraeth ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk <mailto:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk>. Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Gwasanaeth Mabwysiadu Bae'r Gorllewin yn un o bum sefydliad cydweithredol rhanbarthol sydd, gyda'r Gwasanaeth Mabwysiadu Gwirfoddol cydweithredol, yn darparu gwasanaethau mabwysiadau ledled Cymru. Mae Gwasanaeth Mabwysiadu Rhanbarthol Bae'r Gorllewin yn cynnwys tri awdurdod lleol cydweithredol, sef Pen-y-bont ar Ogwr, Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe, a chafodd ei ddatblygu mewn ymateb i newidiadau i'r canllawiau fel y'u hamlinellir yn Neddf Mabwysiadu a Phlant 2002 (Trefniadau Mabwysiadu ar y cyd) (Cymru) 2015 a oedd wedi dilyn deddfwriaeth newydd.

Mae swyddogaethau asiantaethau mabwysiadu'r tri awdurdod lleol yn bennaf yn cael eu dirprwyo i Wasanaethau Mabwysiadu Bae'r Gorllewin trwy gytundeb partneriaeth rhyngasiantaethol rhanbarthol. Mae bwrdd rheoli rhanbarthol ar waith ac mae strwythur llywodraethu wedi'i sefydlu. Mae'r gwasanaeth yn cael ei gynnal gan Ddinas a Sir Abertawe gyda phennaeth gwasanaeth arweiniol o'r awdurdod hwnnw, ond mae'r holl weithwyr wedi'u lleoli yng Nghastell-nedd Port Talbot. Mae tair swyddogaeth sydd ar wahân ond yn gysylltiedig – cynllunio dau drywydd a dod o hyd i deuluoedd ar gyfer plant; recriwtio ac asesu mabwysiadwyr; a chymorth mabwysiadu. Mae'r gwasanaeth yn dal i fod yn gymharol newydd ei sefydlu ac mae'r staff yn parhau i gael eu cyflogi gan yr awdurdod lle y buont yn gweithio'n flaenorol. Mae strwythur staffio'r gwasanaeth yn cynnwys rheolwr rhanbarthol; tri rheolwr tîm; a gweithwyr cymdeithasol cyfwerth â 21 swydd lawn amser. Mae'r gwasanaeth yn cael ei gefnogi gan staff cymorth busnes cyfwerth â 6.5 swydd lawn amser.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

### Asesiad cyffredinol

Plant: mae mabwysiadwyr a phobl sy'n derbyn gwasanaethau mabwysiadu'n derbyn gwasanaeth da ar y cyfan. Roedd ansawdd asesiadau mabwysiadwyr yn dda ar y cyfan, a nodwyd rhai arferion da mewn perthynas â gweithio'n uniongyrchol â phlant a'u rhieni mabwysiadol. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf roedd ymholiadau ynghylch mabwysiadu'n derbyn ymateb amserol, gyda chynnydd bach yn nifer y mabwysiadwyr a oedd yn cael eu cymeradwyo. Mae amseroldeb wedi gwella ar gyfer y cyfnod mae plant yn aros i gael eu lleoli i'w mabwysiadu, gyda phob plentyn sy'n cael ei leoli'n cael ei asesu ar gyfer cymorth mabwysiadu. Mae'r amser cyfartalog mae'n ei gymryd i asesu mabwysiadwyr wedi cynyddu ychydig, ond roedd hyn wedi cael ei ddylanwadu gan amgylchiadau y tu hwnt i reolaeth y gwasanaeth. Roedd ansawdd asesiadau mabwysiadwyr yn dda ar y cyfan, ond nid oedd y gwaith o gofnodi heriau wedi'i ddatblygu yn ddigonol. Mae problemau ynghylch gallu recriwtio digon o fabwysiadwyr sy'n fodlon derbyn grwpiau o siblingiaid a phlant sydd ag anghenion ychwanegol, a bu i niferoedd y plant sydd â phenderfyniad 'dylent gael eu mabwysiadu' a gorchymyn lleoli a oedd yn aros i gael eu lleoli gynyddu'n

sylweddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae hyn yn broblem genedlaethol; roedd gan reolwyr wybodaeth dda am broffil y gwasanaeth ac maent wedi cefnogi strategaethau i geisio mynd i'r afael â'r diffyg.

Ar y cyfan roedd adborth gan fabwysiadwyr ar y gwasanaeth yn gadarnhaol, gyda rhai pobl yn mynegi lefel uchel o fodlonrwydd. Adroddwyd bod hyfforddiant ar gyfer mabwysiadwyr o ansawdd uchel ac mae nifer o wasanaethau cymorth wedi cael eu datblygu. Roedd cymorth gan swyddogion meddygol trwy'r panel mabwysiadu'n cael ei werthfawrogi'n benodol gan fabwysiadwyr.

Mae panel mabwysiadu canolog sy'n gweithredu yn ôl ardal ddaearyddol i ddiwallu anghenion y tri awdurdod ac mae'r rhain yn cael eu gweithredu i safon uchel yn gyson.
Mae defnyddwyr gwasanaeth yn derbyn cefnogaeth dda gan weithlu sydd â'r cymwysterau, y profiad a'r sgiliau priodol. Roedd yr amgylchedd gweithio a phroblemau ynghylch integreiddio staff o dri gwasanaeth ar wahân a chanddynt delerau ac amodau gwahanol wedi cael effaith ar forâl ac absenoldeb oherwydd salwch. Nid oedd staff wedi derbyn hyfforddiant diweddaru yn y ddwy flynedd diwethaf. Mae trefniadau rheoli rhanbarthol wedi'u sefydlu'n dda gyda systemau rheoli perfformiad effeithiol ar waith, ond mae gwaith sicrhau ansawdd yn anghyson ac yn dal i gael ei ddatblygu. Nid yw trefniadau craffu yn gyson ar draws y gwasanaeth gan fod pob awdurdod yn adrodd i aelodau etholedig mewn modd gwahanol.

### Gwelliannau

Dyma arolygiad cyntaf y gwasanaeth.

### Gofynion ac argymhellion

Nid oedd unrhyw feysydd o ddiffyg cydymffurfio â'r rheoliadau.

Mae adran pedwar yr adroddiad hwn yn amlinellu'r argymhellion i wella'r gwasanaeth.

# 1. Llesiant

## Crynodeb

Mae plant yn derbyn gwasanaeth da a gwneir lleoliadau i hyrwyddo eu llesiant. Roedd ansawdd asesiadau mabwysiadwyr yn dda ar y cyfan, ac yn ategu penderfyniadau paru clir a rhesymegol ynghylch lleoli plant gyda mabwysiadwyr. Roedd pob plentyn a leolir y cael ei asesu ar gyfer cymorth mabwysiadu. Mae'r gwasanaeth yn gwerthfawrogi amrywiaeth.

## Ein canfyddiadau

Roedd gwybodaeth am blant a oedd yn cael eu hatgyfeirio i'r gwasanaeth yn gynhwysfawr, ac yn caniatáu ystyried y prif ffactorau a fyddai'n cynorthwyo yn y gwaith o ddod o hyd i leoliadau a fyddai'n hyrwyddo llesiant y plentyn, ac yn sicrhau ei fod yn cael ei gadw mor hapus, mor iach ac mor ddiogel ag y bo modd.

Gwelsom fod y gwasanaeth yn ymateb yn brydlon i atgyfeiriadau a dderbyniwyd, ac y rhoddid ystyriaeth i nodi'r tasgau dod o hyd i deulu ar gyfer pob plentyn. Ynghyd ag atgyfeiriadau amserol i Gofrestr Fabwysiadu Cymru neu'r Gofrestr Fabwysiadu Genedlaethol roedd plant wedi cael eu lleoli'n ddiogel, yn briodol a heb unrhyw oedi diangen. Ymwelwyd â'r plant yn eu lleoliad mabwysiadu yn unol â'r gofynion statudol ac roedd adolygiadau o leoliadau wedi cael eu cynnal.

Roedd anghenion gofal, addysg ac iechyd y plant, ac effaith bosibl eu profiadau o ymlyniad a thrawma yn eu bywydau cynnar yn cael eu nodi a'u rhannu â mabwysiadwyr, a oedd yn cael cynnig hyfforddiant a chymorth i ddeall y rhain. Roedd plant a oedd wedi cyrraedd oedran priodol wedi cael eu helpu i ddeall pam roeddent wedi cael eu mabwysiadu. Cawsom ar ddeall bod plant wedi derbyn cymorth i ymdopi â digwyddiadau bywyd anodd, symud i leoliadau newydd a phrofiadau o golled. Roedd gofalwyr maeth wedi cael eu cynnwys yn y gwaith o baratoi plant ar gyfer symud i leoliad eu mabwysiadu, y cyflwyniadau dwys a'r cymorth mae'r mabwysiadwyr yn ei dderbyn i ddod i adnabod y plentyn. Dywedodd mabwysiadwyr cymaint roeddent yn gwerthfawrogi rôl gofalwyr maeth wrth baratoi plant ar gyfer symud i'w lleoliad mabwysiadu. Roedd gweithwyr cymdeithasol a oedd yn gweithio gyda'r plentyn a'r teulu mabwysiadol wedi gweithio fel tîm o gwmpas y plentyn i sicrhau bod y broses o gyflwyno a lleoli'n brofiad ystyriol, cytbwys a chadarnhaol. Er bod rhywfaint o waith taith bywyd wedi cael ei wneud gyda phlant, a bod llythyron yn hwyrach mewn bywyd wedi cael eu hysgrifennu mewn da bryd, nid oeddent i gyd wedi cael eu rhannu â rhieni mabwysiadu mewn modd amserol. Gwelsom enghreifftiau lle nad oedd y wybodaeth wedi bod ar gael tan ar ôl i'r gorchymyn mabwysiadu gael ei gymeradwyo.

Roedd ansawdd asesiadau mabwysiadwyr (PAR's) yn dda ar y cyfan. Roedd y gwiriadau statudol gofynnol wedi cael eu cwblhau ar ddarpar fabwysiadwyr, ac roedd

plant yn cael eu diogelu gan y rhain a'r asesiadau cynhwysfawr o'r rhai a oedd yn gwneud cais i fabwysiadu. Mae cofnodi heriau o fewn yr asesiad yn faes sydd angen ei wella. Dywedodd aelodau'r panel fod ansawdd y PAR's yn dda at ei gilydd. Ar y cyfan roedd dyfnder y wybodaeth yn yr asesiadau'n cefnogi'r gwaith o wneud penderfyniadau paru clir a rhesymegol ynghylch rhoi plant gyda mabwysiadwyr penodol. O ganlyniad mae plant wedi cael eu paru a'u lleoli â rhieni mabwysiadu yr oedd eu hasesiadau'n dangos mai nhw oedd y mwyaf tebygol o ddiwallu eu hanghenion.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r mabwysiadwyr a ymatebodd i holiaduron Arolygiaeth Gofal Cymru eu bod wedi derbyn gwybodaeth dda am y gwasanaeth a'r hyn roedd mabwysiadu'n ei gynnwys. Roeddent o'r farn bod y broses asesu'n amserol, yn gytbwys ac yn deg. Roeddent hefyd yn teimlo pan oedd penderfyniadau paru a lleoli yn cael eu hystyried fod y gwasanaeth wedi ystyried cyfansoddiad ac amgylchiadau eu teulu.

Cawsom ar ddeall bod pobl a oedd yn gysylltiedig â'r gwasanaeth yn cael eu trin yn deg a pharchus, a heb ragfarn. Roedd tystiolaeth o barch a chynhwysiant yn yr asesiadau a'r cysylltiadau â mabwysiadwyr. Gwelsom mewn rhai achosion fod rhieni biolegol wedi cael eu cynnwys wrth fynegi eu safbwyntiau ynghylch y math o bobl a fyddai'n mabwysiadu eu plentyn ac y gwrandawyd ar eu safbwyntiau. Ymatebwyd i bobl a chanddynt anghenion iechyd neu gyfathrebu penodol mewn modd sensitif a thosturiol. Mewn nifer o achosion roedd materion penodol wedi cael eu hystyried cyn yr asesiad fel nad oedd ymgeiswyr yn dechrau ar y broses asesu os nad oedd yn debygol o fod yn hyfyw, ac yn cael eu siomi ar gam diweddarach. Canfuom pan oedd mabwysiadwyr wedi rhoi eu safbwyntiau ynghylch y gwasanaeth y gwrandawyd arnynt, er na chytunwyd â nhw bob amser. Gwelsom fod y gwersi a ddysgwyd o adborth ar y gwasanaeth wedi cael eu hystyried gyda golwg ar wella arferion yn y dyfodol. Enghraifft o hyn oedd y broblem lle nad oedd gwaith taith bywyd wedi cael ei wneud ar gael ei fabwysiadwyr mewn modd amserol.
Mae plant yn profi llesiant gwell oherwydd bod y gwasanaeth yn sicrhau ei fod yn meddu ar wybodaeth o ansawdd da amdanynt a'u hanghenion, ac yn ymdrechu i sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu diwallu. Mae anghenion cymorth plant yn cael eu hystyried fel rhan o'r ystyriaethau wrth baru plant â mabwysiadwyr. Mae hunaniaethau a diwylliannau'r plant yn cael eu cydnabod a'u gwerthfawrogi, ac roedd plant wedi cael eu lleoli i ategu'r gwaith o fodloni'r rhain. Mae diwylliant Cymru a'r Gymraeg, neu dreftadaeth arall, yn cael eu hystyried fel rhan o'r asesiadau o fabwysiadwyr a lleoliadau posibl, a gwelsom fod plant o gartrefi Cymraeg eu hiaith, lle bo hynny'n bosibl, wedi cael eu lleoli â mabwysiadwyr a oedd yn siarad Cymraeg.

Mae anghenion  unigol ac amrywiol y plant yn cael eu cydnabod a darperir ar eu cyfer; mae eu hawliau'n cael eu hamddiffyn gan y prosesau penderfynu ac mae plant sydd wedi cyrraedd oedran priodol yn cael eu hannog i fynegi eu safbwyntiau.  Er enghraifft, gwnaethom ddarllen bod mabwysiadwyr wedi ymgynghori â phlant

ynghylch y posibilrwydd o newid eu henw cyntaf, ac y gwrandawyd ar y plant a chafodd eu dymuniadau eu parchu.

Gwelsom gofnodion a oedd yn dangos bod plant wedi profi cynhesrwydd, ymlyniad ac ymdeimlad o berthyn yn y cartrefi a oedd wedi'u mabwysiadu. Roedd plant wedi gwneud cynnydd yn ddatblygiadol, yn emosiynol, yn gymdeithasol ac yn addysgol ers cael eu mabwysiadu. Roedd plant wedi parhau i fod yn iach oherwydd bod eu hanghenion yn hysbys ac yn cael eu rhagweld, ac roeddent yn gallu cael mynediad at gymorth arbenigol neu feddygol perthnasol. Roedd eu hanghenion iechyd yn cael eu monitro ac yn derbyn sylw, ac roedd adroddiadau'n nodi bod llawer o'r plant yn ffynnu.

Roedd nifer o grwpiau o siblingiaid wedi cael eu mabwysiadu. Roedd tystiolaeth o benderfyniadau'n cael eu gwneud ynghylch lleoli siblingiaid, a'r ystyriaethau mewn perthynas â chadw cysylltiadau â siblingiaid lle roedd hynny'n briodol. Os nad oedd hyn yn bosibl, roedd rhesymau clir yn cael eu cofnodi a thystiolaeth o bob plentyn a'i anghenion yn cael eu hystyried yn unigol yn ogystal ag fel rhan o'r grŵp o siblingiaid. Roedd cymorth ariannol wedi cael ei ddarparu ar gyfer rhai lleoliadau i gynorthwyo siblingiaid i gael eu mabwysiadu gyda'i gilydd.

Gall plant a phobl ifanc fyw gyda rhieni mabwysiadol sy'n eu caru a'u cefnogi ac sydd wedi ymrwymo i ddeall a diwallu eu hanghenion. Mae plant yn derbyn cymorth i feddu ar ddealltwriaeth gadarnhaol o'u taith i gael eu mabwysiadu – ac fel y cytunwyd arno ar sail unigol, roedd trefniadau wedi cael eu rhoi ar waith os oeddent yn mynd i gadw mewn cysylltiad â'u teulu biolegol. Mae llesiant plant yn derbyn blaenoriaeth yn y gwasanaeth hwn – gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar y plant ac yn deall anghenion plant. Mae plant wedi llwyddo i brofi sefydlogrwydd yn y cartrefi lle maent wedi cael eu mabwysiadu, oherwydd, yn y cyfnod a ystyriwyd, dim ond un lleoliad a oedd wedi chwalu.

## 2. Gofal a Chymorth

### Crynodeb

At ei gilydd mae trefniadau'r panel yn cydymffurfio â'r gofynion deddfwriaethol, ac mae cynghorydd proffesiynol a swyddog penderfynu dynodedig ar waith. Fodd bynnag, nodwyd rhai meysydd roedd angen eu datblygu megis cyflwyno cyfarfodydd busnes ac arfarniadau a hyfforddiant ar gyfer aelodau o'r panel.

Rhoddir ystyriaeth ofalus i'r gwaith o baru plant â darpar fabwysiadwyr, gyda phrosesau priodol ar waith ar gyfer gwneud hynny.

Mae amrediad o gymorth priodol ar waith i sicrhau bod y gwaith o leoli plant gyda mabwysiadwyr/darpar fabwysiadwyr yn llwyddiannus. Gwnaethom nodi rhai enghreifftiau o gymorth a oedd yn cynnwys arferion da, a rhai meysydd lle y gellid gwneud gwelliannau. Roedd cynlluniau cymorth yn cael eu rhoi ar waith yn gyson ar adeg y paru, ond nid oedd trefniadau cadarn ar gyfer adolygu ar waith bob amser.

Roedd gan y gwasanaeth mabwysiadu effeithiol ar gyfer darparu gwasanaethau cyfrygnol o ansawdd da a oedd yn diwallu anghenion pobl ac yn hyrwyddo eu llesiant. Fodd bynnag, nid oedd yn bosibl bodloni'r galw am wasanaeth mewn modd amserol bob amser, er y rhoddid blaenoriaeth i'r mabwysiadau hynny cyn mis Tachwedd 1975.

### Ein canfyddiadau

Roedd trefniadau da wedi cael eu datblygu ar gyfer y panel mabwysiadu. Roedd y gwasanaeth mabwysiadu wedi dyrannu'r ddau reolwr tîm i fod yn Gynghorwyr Gwasanaeth Cymorth Mabwysiadu, a chan bob un rolau dynodedig o fewn y gwasanaeth – er enghraifft, mae un yn gynghorydd ar gyfer y panel.

Roedd aelodaeth y panel a'r ffordd mae'n gweithredu wedi cael eu datblygu ers ailstrwythuro'r gwasanaeth mabwysiadu, a dechreuodd cadeirydd y panel yn ei swydd ym mis Ionawr 2015. Yr un unigolyn yw'r cadeirydd ar gyfer pob un o'r tri phanel, ac o ganlyniad mae cysondeb yn cael ei hyrwyddo – ac yn anaml iawn y bydd y cadeirydd yn colli cyfarfod panel. Fel arfer mae tri chyfarfod panel bob mis, sy'n cael eu lleoli'n ddaearyddol ym mhob un o'r awdurdodau lleol. Roedd protocol ar gyfer y panel mabwysiadu ar waith sy'n amlinellu sut mae'r panel yn gweithredu.

Mae'r gwasanaeth wedi sefydlu cronfa ganolog o aelodau panel, gyda chraidd sy'n mynychu'n rheolaidd a rhai nad ydynt yn mynychu ond yn eu hardal ddaearyddol. Dywedodd cadeirydd y panel a'r Cynghorydd Gwasanaeth Cymorth Mabwysiadu wrthym nad oedd yn anodd sicrhau bod cworwm mewn cyfarfodydd panel. Disgrifiwyd aelodau o'r panel fel unigolion ymroddedig ac ymrwymedig, ac roedd y gofal a gymerid wrth baratoi ar gyfer panelau a'r lefelau o bresenoldeb a chyfranogiad yn y cyfarfodydd yn dystiolaeth o hyn. Nodwyd hyn mewn cyfarfod

panel lle y gwelwyd aelodau'n cymryd rhan weithredol yn y broses a'r trafodaethau a oedd yn cael eu cynnal.

Er y gwelwyd bod yr aelodau o'r panel yn gweithredu'n dda ac yn ystyried y materion perthnasol, roedd diffyg cynrychiolaeth ar lefel strategol er mwyn dylanwadu ar bolisïau a'r proses ehangach o wneud penderfyniadau. Er enghraifft, roedd un o'r aelodau o'r panel yn athro a oedd wedi ymddeol, ac roedd cydlynydd LACE hefyd yn aelod o'r panel; fodd bynnag, dywedodd y cydlynydd LACE wrthym nad oedd yn mynychu cyfarfodydd panel, ac o ganlyniad nad oedd ganddo ymdeimlad o'r ffordd roedd y panel yn gweithredu na'r materion ehangach a oedd yn codi.

Mae'r cynghorwyr meddygol yn gweithio'n dda wrth rannu gwybodaeth berthnasol a sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu â darpar fabwysiadwyr. Maent yn glir ynghylch eu rolau a'u cyfrifoldebau. Yn yr un modd mae gan bob awdurdod lleol gynghorydd cyfreithiol sy'n darparu gwybodaeth ac arweiniad pan fydd angen.

Mae cofnodion cyfarfodydd panel yn cael eu prosesu'n brydlon a dywedodd y cadeirydd wrthym fod cymorth busnes da ar gyfer gweinyddu'r panel. Mae swyddogion penderfynu'r asiantaeth yn effeithiol o ran cyflawni eu rolau mewn modd amserol. Roedd cofnodion cyfarfodydd panel yn ddigon manwl.

Roedd disgrifiadau o'r panel yn nodi ei fod yn gweithio'n dda a chanddo ddiwylliant agored. Mae'r panel yn hyrwyddo cyfleoedd i archwilio materion ac yn annog aelodau o’r panel i ofyn cwestiynau a chyfnewid safbwyntiau mewn modd agored a gonest. Gwelwyd bod aelodau panel yn cydnabod adroddiadau ac asesiadau o ansawdd da, a hefyd eu bod yn nodi pryderon ynghylch ansawdd rhai adroddiadau ac yn gofyn iddynt gael eu hadolygu (fel arfer y CAR-B). Roedd ymatebion i'r holiaduron yn nodi bod y CAR-B yn darparu digon o wybodaeth am y plentyn, ond yn aml nad oedd yn adlewyrchu dymuniadau rhieni biolegol.

Roedd aelodau o’r panel yn nodi meysydd yr oedd angen eu gwella. Nid yw aelodau o’r panel yn derbyn arfarniadau na hyfforddiant; mae Rheoliad 8 (b) yn dweud mai cyfrifoldeb y cynghorydd mabwysiadu yw hwn. Dywedodd y cynghorydd mabwysiadu wrthym ar ôl i un rheolwr tîm adael na fu digon o amser i wneud y gwaith hwn. Yn yr un modd (Rheoliad (8 (d)), mae'r panel wedi gofyn am gyfarfodydd busnes achlysurol, ac i wybodaeth mewn perthynas â dadansoddiadau o leoliadau gael ei thrafod yn y panel, ond nid yw hyn wedi digwydd. Mae protocol y panel yn dweud y bydd cyfarfodydd panel busnes yn cael eu cynnal bob chwe mis, ond nid yw hyn wedi digwydd. Cafodd hyn ei gadarnhau gan y sylwadau a wnaed yn yr holiaduron a dderbyniwyd oddi wrth aelodau o’r panel. Roedd ymatebion i'r holiaduron hefyd yn nodi nad oedd aelodau o’r panel wedi derbyn y polisïau a'r gweithdrefnau priodol. Mae angen cymryd camau i fynd i'r afael â'r materion hyn.

Roedd prosesau paru clir ar waith i sicrhau bod anghenion plant a mabwysiadwyr yn cael eu hystyried ar adeg y paru a'r lleoli. Ystyrir addasrwydd y paru ac unrhyw

anghenion cymorth a allai fod gan y plentyn neu'r mabwysiadwyr. Mae'r broses hon hefyd yn monitro gwaith ar hanes bywyd a llythyron yn hwyrach mewn bywyd ar gyfer plant sy'n cael eu lleoli. Er inni weld rhai enghreifftiau o waith da ar hanesion bywyd, roedd hefyd enghreifftiau o oedi yn y gwaith hwn, a llythyron yn hwyrach mewn bywyd nad oeddent yn cael eu darparu tan yn hwyr yn y broses lleoli, ac weithiau ar ôl i'r gorchymyn mabwysiadu gael ei wneud. Dywedodd y Cynghorydd Gwasanaeth Cymorth Mabwysiadu wrthym fod cynlluniau o fis Ebrill 2018 i yrru fframwaith yn ei flaen ynghylch gwaith hanes bywyd, gyda swyddogion adolygu annibynnol yn ymgymryd â'r cyfrifoldeb am sicrhau bod unigolyn a enwir ar gyfer y gwaith hwn, a'r panel yn monitro hyn gyda'r disgwyl y bydd yn cael ei gwblhau ar adeg y paru.

Roedd trefniadau ar waith i sicrhau bod gwybodaeth am blant, eu teuluoedd ac unrhyw oblygiadau iechyd yn cael ei rhannu â mabwysiadwyr. Roedd cynghorwyr meddygol yn cyflawni rôl gadarnhaol yn y broses hon.

Mae lleoliadau'n cael eu cefnogi trwy drefniadau a chynlluniau cymorth mabwysiadu. Mae anghenion cymorth yn cael eu hystyried ar adeg y paru ac roedd cynllun cymorth yn cael ei roi ar waith yn gyson ar adeg y paru/lleoli. Fodd bynnag, nid oedd y trefniadau adolygu ar adeg y mabwysiadu'n cael eu rhoi ar waith yn gyson, ac roedd diffyg monitro prosesau er mwyn nodi'r diffygion hyn. Pe bai'r angen am wasanaethau cymorth yn cael ei nodi ar ôl y lleoli, roedd prosesau ar waith i sicrhau bod y rhain yn cael eu monitro a'u hadolygu'n briodol.

Mae ymdrechion wedi cael eu gwneud i ddatblygu sgiliau staff er mwyn darparu cymorth o ansawdd da ar gyfer mabwysiadwyr a phlant. Roedd y trefniadau cymorth a ddarperir gan y tîm yn cynnwys:

- Gwaith cymdeithasol therapiwtig;
- Thechnegau therapi chwarae;
- Canolbwyntio ar dasgau/yn seiliedig ar ddatrysiadau;
- Asesiadau ymlyniad;
- Hanes bywyd therapiwtig;
- Hyfforddiant ar gyfer mabwysiadwyr ar ôl iddynt gael eu cymeradwyo;
- Grwpiau cymorth;
    - Mabwysiadwyr – dau grŵp, un yn y dwyrain ac un yn y gorllewin. Mae'n cynnwys siaradwr gwadd a chyfle i fabwysiadwyr gwrdd â chael sgwrs. Mae gweithiwr cymdeithasol o'r tîm yn cefnogi pob un o'r grwpiau.
    - Siarad am fabwysiadu – dau grŵp, plant a phobl iau, a grŵp o bobl hŷn, gan gynnwys plant sydd wedi cael eu mabwysiadu hyd at 25 mlwydd oed. Mae gweithiwr cymdeithasol o'r tîm yn mynychu. Roedd disgrifiadau o'r rhain yn nodi eu bod yn llwyddiannus ac yn darparu cyfle i blant siarad am eu profiadau o gael eu mabwysiadu.

- Grŵp mabwysiadwyr a phlant – plant iau o dan wyth mlwydd oed. Mae tri grŵp, un ym mhob awdurdod lleol. Mae gweithiwr cymdeithasol yn mynychu pob grŵp ac mae mabwysiadwr yn arwain un o'r grwpiau.

Lle mae cymorth therapiwtig arbenigol wedi cael ei nodi ar gyfer plant, a'r cyllid wedi'i gymeradwyo, gall lleoli/caffael y cymorth hwn fod yn anodd. Gwelwyd enghraifft o weithiwr a aeth i lawer o drafferth i ddod o hyd i'r cymorth cywir ar gyfer plentyn, ond canlyniad anochel hyn oedd bod dod o hyd i'r cymorth hwn wedi cymryd cryn amser.

Cymorth ariannol: Mae polisi lwfans mabwysiadu wedi cael ei ddatblygu ar gyfer y tri awdurdod lleol. Lle mae trefniadau ar waith o dan yr hen drefniadau, bydd y rhain yn cael eu parchu. Mae prawf modd blynyddol yn cael ei gynnal ar gyfer pobl sy'n derbyn cymorth ariannol. Mae prawf modd yn cael ei gwblhau yn gychwynnol ac wedyn bob blwyddyn i sicrhau cymhwysedd parhaus.

Mae trefniadau blwch llythyron wedi bod yn her oherwydd y niferoedd uchel mae angen eu rheoli. Mae swyddog cymorth busnes neilltuedig i gynorthwyo gyda'r dasg, ac mae'n sicrhau bod popeth yn cael ei gofnodi a'i sganio ar y system. Mae'r gwaith bellach wedi cael ei rannu rhwng aelodau'r tîm fel bod gan bawb rywfaint o waith blwch llythyron yn eu llwyth gwaith. Dywedodd y Cynghorydd Gwasanaeth Cymorth Mabwysiadu y gwnaed ymdrechion i wneud achosion segur yn fyw, a lle roedd angen gwnaed ymchwil i sicrhau cyfreithlondeb y cysylltiad. Nodwyd bod hyn yn golygu llawer o waith ond roedd yn cael ei ystyried yn llwyddiant, gyda rhagor o eglurdeb ynghylch y trefniadau a oedd ar waith.

Mae gan y tîm weithiwr arbenigol i ymgymryd â gwaith cyfryngol. Fodd bynnag, roedd ymdrechion yn cael eu gwneud i gynyddu set sgiliau aelod arall o'r tîm er mwyn cynyddu capasiti o fewn y tîm a bodloni'r galw. Mae'r gwasanaeth hwn wedi cael ei ystyried yn flaenoriaeth isel yn y gorffennol. Nodwyd bod dod o hyd i hyfforddiant arbenigol yn y maes gwaith hwn yn anodd.

Bu nifer uchel o achosion o gwnsela ar gofnodion genedigaeth a gwasanaethau cyfryngol nad oeddent wedi cael eu dyrannu, a oedd wedi cael eu hetifeddu yn dilyn ailstrwythuro'r gwasanaethau mabwysiadu. Roedd cost comisiynu'r gwasanaeth yn gyfyngol, felly, roedd cynlluniau i un gweithiwr arwain y gwaith ar gyfer y flwyddyn nesaf, gyda golwg ar ddatblygu sgiliau a gwybodaeth staff yn y maes gwaith hwn. Lle roedd gwaith wedi cael ei wneud, gwelsom enghreifftiau o waith da – roedd un yn ddarn estynedig o waith a'r llall yn ddarn byr o waith â ffocws penodol. Roeddent yn dangos bod sylw yn cael ei roi i'r gweithdrefnau cywir, gydag anghenion cyfathrebu pobl yn cael eu hystyried mewn modd sensitif a pharchus.

Rhoddid blaenoriaeth i ddarparu gwasanaeth amserol i bobl a gafodd eu mabwysiadu cyn mis Tachwedd 1975 yn unol â'r rheoliadau. Gwelwyd enghraifft o

hyn, ond mae'n bosibl y bydd diffyg capasiti yn cael effaith ar amseroldeb cyffredinol y gwasanaeth hwn.

Mae'r gwasanaeth yn cynllunio datblygu canllawiau ar gyfer pobl i'w helpu i gadw'n ddiogel os ydynt yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol a phrosesau eraill i wneud eu chwiliadau eu hunain.

Felly, canfuom fod ansawdd y gwaith i helpu pobl gyda chwnsela ar gofnodion genedigaeth a gwaith cyfryngol yn dda iawn, er bod y galw cyffredinol ar y gwasanaeth yn arwain at ddiffyg amseroldeb ar gyfer trefniadau.

## 3. Arweinyddiaeth a Rheolaeth

### Crynodeb

Mae trefniadau arweinyddiaeth a llywodraethu'n cydymffurfio'r â'r canllawiau statudol. Roedd yn holl randdeiliaid yn fodlon ar y cytundeb partneriaeth a gafodd ei therfynu ym mis Ionawr 2017. Mae'r trefniadau gweithio'n cael eu hadlewyrchu yn natganiad o ddiben y gwasanaeth rhanbarthol. Mae'r adroddiadau rheolaidd ar berfformiad i'r bwrdd rheoli rhanbarthol yn dda, ac mae aelodau'n adrodd am waith partner cadarnhaol. Fodd bynnag, yn ôl pob golwg gall y proses gael effaith ar yr hyblygrwydd i weithredu penderfyniadau, ac mae'r gwaith sicrhau ansawdd yn gymharol danddatblygedig.

Nid oedd llinellau atebolrwydd i aelodau etholedig yn gyson nac yn gwbl glir ar draws y tri awdurdod lleol. Mae hwn yn faes sy'n cael ei ddylanwadu yn benodol gan fodel rhanbarthol. Adroddir am berfformiad y gwasanaeth rhanbarthol bob blwyddyn, ond nid oedd llawer o gyfleoedd i aelodau graffu ar y canlyniadau ar gyfer y plant yn eu hawdurdod nhw y mae ganddynt gyfrifoldeb rhianta corfforaethol amdanynt. Gwnaeth aelodau gydnabod bod hyn yn faes roedd angen ei wella.

Mae cynrychiolaeth ranbarthol dda yn y grŵp cynghori cenedlaethol, ac roedd aelod o'r rhanbarth wedi bod yn cadeirio'r bwrdd llywodraethu cenedlaethol, gan hybu cyfathrebu da. Roedd Bae'r Gorllewin wedi cael ei nodi fel rhanbarth blaengar mewn perthynas ag arferion arloesol a chreadigol. Fodd bynnag, roedd dwy broblem arwyddocaol, sef recriwtio nifer ac ystod sylweddol o fabwysiadwyr, a'r cynnydd yn nifer y plant a oedd yn aros i gael eu lleoli, yn parhau i fod yn her.

Roedd y gwaith o integreiddio'r gweithlu o dri awdurdod partner wedi peri rhai anawsterau. Roedd nifer o broblemau wedi cael effaith ar forâl y tîm, ac roedd angen gwneud cynnydd o hyd wrth ddatblygu ethos gwasanaeth cyfan. Roedd y penderfyniad i beidio â recriwtio ar gyfer un o'r swyddi rheolwr tîm wedi cael effaith ar gapasiti. Roedd y penderfyniad hwn wedi cael ei wrthdroi ond nid oedd yn glir pa mor gyflym y byddai rhywun yn cael ei recriwtio. Roedd rhai problemau rheoli lleol o fewn y gwasanaeth yr oedd y bwrdd rheoli rhanbarthol wedi cydnabod bod mynd i'r afael â nhw wedi bod yn anodd.

Roedd rheolwyr yn ymwybodol o'r ffaith y gallai'r rhyngddibyniaeth – a allai effeithio ar amseroldeb ac ansawdd y wybodaeth rhwng timau gofal plant awdurdodau lleol a'r gwasanaeth mabwysiadu rhanbarthol – gael effaith negyddol ar arferion. Er enghraifft, roedd gwaith taith bywyd wedi cael ei wella, ond roedd y gwaith o sicrhau capasiti i gyflawni ansawdd ac amseroldeb cyson yn her.

**Ein canfyddiadau**

Roedd y rhanbarth wedi gwneud llawer o ymdrech i sefydlu'r hyn sydd, i bob pwrpas, yn wasanaeth newydd. Roedd sefydlu gwasanaeth mabwysiadu cenedlaethol, gyda'r strwythur rhanbarthol yn hanfodol wrth gyflawni'r nodau a'r gwelliannau arfaethedig, yn gofyn am lefel uchel o ymroddiad gan bawb a oedd yn gysylltiedig. Mae nodau ac amcanion y gwasanaeth cenedlaethol wedi cael eu hymgorffori yn y cytundeb gwaith. Mae'r trefniadau amlhaen yn cael eu deall yn dda ac yn gweithio'n effeithiol, er y bu'r gofyniad i adrodd am nifer cynyddol o ddangosyddion perfformiad wedi bod yn her. Roedd rhywfaint o dystiolaeth o oedi rhwng penderfyniadau yn cael eu cytuno ar lefel bwrdd a chamau'n cael eu gweithredu. Roedd rôl y cadeirydd yn wag am gyfnod, a allai fod wedi cael effaith ar amseroldeb.

Mae llwyddo i gael cynrychiolwyr o asiantaethau eraill ar y bwrdd rheoli rhanbarthol wedi cymryd yn hirach. Prin oedd y dystiolaeth fod cynnwys asiantaethau partner ar y bwrdd rheoli rhanbarthol yn gwneud gwahaniaeth ar hyn o bryd i gymorth mabwysiadu yn y tymor hwy. Er bod unigolion yn ymroddedig a bod enghreifftiau o gydberthnasau gweithio da a chymorth o ansawdd da, yn enwedig o faes iechyd, mae'n anodd gweld y dylanwad sy'n cael ei ddefnyddio ar draws y bwrdd iechyd a chyfarwyddiaethau iechyd i ymgorffori gwelliannau ym maes cymorth mabwysiadu. Mae'r trydydd sector yn gryf gyda chysylltiadau da â strwythurau cenedlaethol. Roedd aelodau o’r bwrdd yn hyderus bod cynnydd yn cael ei wneud wrth fodloni safonau cenedlaethol a gwella ansawdd. Roedd lefel uchel o optimistiaeth ynghylch manteision posibl mentrau cenedlaethol megis cynllun i gefnogi plant a chanddynt anghenion ychwanegol i gael eu mabwysiadu 'Adoption Together' a'r fframwaith cenedlaethol/hyfforddiant ar waith taith bywyd. Cydnabuwyd bod cynyddu argaeledd lleoliadau mabwysiadu a gwella cymorth hirdymor ar gyfer plant sydd wedi cael eu mabwysiadu yn parhau i beri problemau.

Mae penaethiaid gwasanaeth o'r tri awdurdod lleol yn gadarnhaol iawn ynghylch trefniadau gweithio'r bwrdd rheoli rhanbarthol. Mae gan y pennaeth gwasanaeth arweiniol gyfrifoldebau ychwanegol, mae'n goruchwylio'r rheolwr rhanbarthol ac mae hefyd yn cynrychioli'r rhanbarth yn genedlaethol. Er bod y bwrdd rheoli'n gallu paratoi ar gyfer darparu gwasanaethau, gan fod data a thueddiadau'n cael eu hadrodd mewn modd systematig, roedd nifer amrywiol y plant a chanddynt gynllun a oedd yn cael eu hatgyfeirio i gael eu mabwysiadu, a’r diffyg rheolaeth dros nifer y mabwysiadwyr posibl y gellid eu recriwtio'n gwneud y gwaith o gynllunio'n heriol. Adroddwyd y bu mabwysiadwyr dros ben yn ystod blynyddoedd diweddar, ond bod cynnydd yn nifer y plant a chanddynt gynllun ar gyfer mabwysiadu wedi arwain at ddiffyg nad oedd yn bosibl ei lenwi yn y tymor byr. Hefyd roedd nifer y plant hŷn a chanddynt gynllun ar gyfer mabwysiadu a'r rhai a oedd ag anghenion ychwanegol wedi cynyddu, a oedd yn ei dro wedi arwain at gynnydd yn nifer y plant a oedd yn aros i gael eu lleoli – h.y. o 86 yn 2015/16 i 102 yn 2016/17. Roedd hefyd broses systematig ar waith i sicrhau bod plant yn cael eu cofrestru gyda Chofrestr Mabwysiadu Cymru mewn modd amserol, a bod mentrau ychwanegol megis

'diwrnodau cyfnewid' yn cael eu mynychu mewn ymdrech i ddod o hyd i fabwysiadwyr addas.

Roedd rhai enghreifftiau o gomisiynu da, gyda hyfforddiant ar gyfer darpar fabwysiadwyr a gwasanaethau therapiwtig. Roedd argaeledd ac amrywiaeth cymorth ar ôl mabwysiadu'n llai cyson. Mae'r bwrdd yn ymwybodol o'r angen i ddatblygu dull mwy rhanbarthol, neu genedlaethol hyd yn oed, ar gyfer datblygu amrediad priodol o wasanaethau. Mae cynlluniau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth gyda Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed i ddatblygu cymorth seicolegol gwell ar gyfer y rhai sy'n cael eu heffeithio gan fabwysiadu ar draws y rhanbarth.

Mae fframwaith sicrhau ansawdd yn cael ei ddatblygu, ond er bod tystiolaeth bod gwaith yn cael ei adolygu, nid oedd hyn yn gyson ar draws y gwasanaeth. Mae gan awdurdodau eu prosesau sicrhau ansawdd eu hunain ar waith, ond mae angen i'r gwasanaeth rhanbarthol sefydlu systemau i sicrhau bod ei waith yn cael ei wella'n barhaus. Ni fu ond un lleoliad mabwysiadu a oedd wedi chwalu yn ystod y flwyddyn flaenorol ar gyfer unrhyw blant yn y cyfnod rhwng y plentyn yn cael ei leoli i'w fabwysiadu a gwneud y gorchymyn mabwysiadu. Fodd bynnag, nid oedd y chwalu wedi cael ei adolygu ac nid oedd unrhyw sicrwydd ansawdd naw mis yn ddiweddarach; adroddwyd bod hyn oherwydd salwch staff. Roedd cynlluniau yn yr arfaeth i gwblhau'r darn hwn o waith ac i rannu'r dysgu.

Dywedodd yr holl benaethiaid gwasanaeth eu bod yn hyderus yn eu gwybodaeth am effeithiolrwydd y gwasanaeth mabwysiadu rhanbarthol a'u gallu i olrhain cynnydd plant o'u hawdurdodau unigol eu hunain. Roedd pob un ohonynt yn 'swyddog penderfynu asiantaeth' dynodedig ar gyfer ei awdurdod ei hun, a oedd yn rhoi'r cyfle iddynt feddu ar drosolwg o ansawdd y gwaith a oedd yn cael ei gyflawni. Gall y gwaith hwn ofyn am lefel uchel o gapasiti, er bod hyn yn amrywio. Nid yw'r trefniadau ar draws yr awdurdodau'n gyson, er enghraifft, adroddwyd bod gwaith sicrhau ansawdd Adroddiadau Mabwysiadu Plant yn cael ei gyflawni'n lleol – ond roedd dogfennau'n cofnodi beirniadaeth gan y panel mabwysiadu'n eithaf rheolaidd. Yn ôl pob golwg, nad yw'r cysylltu'n ôl i wella arferion yn gweithio'n effeithiol. Roedd cefnogaeth ar gyfer proses y swyddogion penderfynu asiantaeth hefyd yn amrywiol, a gallai hyn gael effaith ar sicrhau ansawdd, er nad oedd hyn yn effeithio ar ganlyniadau, yn ôl pob golwg. Gellid gwella cyfleoedd ymarfer i rannu dysgu.

Mae cyllideb a rennir ar gyfer costau cynnal y gwasanaeth, sy'n cynnwys costau cymorth mabwysiadu, gyda phob partner yn dweud ei fod yn fodlon ar y trefniadau cyllido. Roedd y gyllideb y cytunwyd arni ar gyfer darparu lwfansau mabwysiadu un tro a lwfansau mabwysiadu parhaus wedi gollwng yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Nid oedd unrhyw esboniad clir i'w weld am y newid hwn. Mae hyn yn faes a fyddai ar ei ennill o gael ei adolygu gan y bwrdd rheoli rhanbarthol. Gwelwyd enghreifftiau o becynnau cymorth therapiwtig da yn cael eu darparu i baratoi ar gyfer mabwysiadu, er bod y rhain yn cael eu hariannu gan y gwahanol awdurdodau lleol. Gallai plant fod

ar eu hennill ymhellach pe bai'r gwaith o ddarparu cymorth cyn mabwysiadu'n gyson, mewn ymdrech i sicrhau'r canlyniadau gorau. Roedd ymdrechion da wedi cael eu gwneud i wella cysylltiadau 'blwch llythyron', er enghraifft, ac roedd y rheolwyr yn weithredol wrth yrru gwelliannau ar draws y gwasanaeth yn eu blaen.

Mae amrediad eang o brofiad a chymysgedd sgiliau yn y gweithlu. Mae'r holl weithwyr yn meddu ar gymwysterau addas ac wedi'u cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae trosiant staff yn isel, ond mae rhywfaint o absenoldeb oherwydd salwch wedi bod. Roedd amrediad o hyfforddiant perthnasol ar gael ond nid oedd staff wedi cwblhau unrhyw hyfforddiant diweddaru mewn diogelu yn ystod y ddwy flynedd diwethaf. Mae lefel uchel o ymroddiad i gefnogi'r canlyniadau gorau ar gyfer plant a mabwysiadwyr. Roedd y trefniadau ar gyfer rhedeg y gwasanaeth yn drefnus, ond roedd y swydd rheolwr wag, heriau annatod dod â thri gwasanaeth a chanddynt delerau ac amodau gwahanol ar gyfer staff sy'n gwneud yr un gwaith at ei gilydd, ac amgylchedd gweithio cyfyngedig wedi cael effaith ar forâl staff. Roedd llwythi gwaith wedi bod yn drwm oherwydd salwch a swyddi gwag; dywedodd rhai staff nad oeddent yn teimlo eu bod yn derbyn cefnogaeth ar adegau. Nid oedd staff wedi derbyn sesiynau goruchwylio rheolaidd, gan fod y dull sydd ar waith yn canolbwyntio yn bennaf ar achosion unigol. Mae angen cofnodi a chefnogi datblygiad a llesiant staff yn well. Roedd y mater hwn wrthi'n cael ei ddatrys ar adeg yr arolygiad.

# 4. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

## 4.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dyma oedd arolygiad cyntaf y gwasanaeth hwn.

## 4.2 Argymhellion ar gyfer gwella

- Dylai'r bwrdd rheoli rhanbarthol adolygu'r trefniadau ar gyfer gweithredu camau y cytunwyd arnynt, a sicrhau bod trefniadau ar waith i ddirprwyo'r cadeirydd ar waith.

- Dylid ystyried sut y gellir datblygu gwelliannau i wasanaethau cymorth mabwysiadu'n fwy systematig ar draws asiantaethau partner.

- Dylid gweithredu fframwaith sicrhau ansawdd ar draws y gwasanaeth ac ystyried cysylltu â'r swyddogaethau cysylltiedig sy'n cael eu cwblhau gan wasanaethau plant, h.y. CAR-B, gwaith taith bywyd a llythyron yn hwyrach mewn bywyd.

- Dylai holl staff gweithredol y gwasanaeth mabwysiadu rhanbarthol gwblhau hyfforddiant diogelu perthnasol bod dwy flynedd.

- Dylid adolygu'r broses ar gyfer asesu a chytuno ar gymorth ariannol ar gyfer mabwysiadwyr i sicrhau bod y system yn gweithio'n briodol.

- Dylid adolygu amseroldeb ac ansawdd goruchwyliaeth i sicrhau bod dull cyson ar gyfer rheoli achosion a chefnogi a datblygu staff.

- Dylid ystyried sut y gellir darparu amgylchedd gwaith mwy addas ar gyfer staff.

- Dylid darparu arfarniadau a chyfleoedd hyfforddiant ar gyfer aelodau o’r panel.

- Mae angen ystyried darparu cyfarfodydd busnes ar gyfer aelodau panel o bryd i'w gilydd, a dod â gwybodaeth ac adroddiadau ynglŷn â dadansoddiadau o leoliadau i gyfarfodydd panel.  Mae angen darparu’r polisïau a'r gweithdrefnau perthnasol ar gyfer aelodau panel.

- Mae angen rhoi trefniadau ar waith i sicrhau bod cynlluniau cymorth yn cael eu hadolygu.

## 5. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad llawn a'r un cyntaf o'r gwasanaeth mabwysiadu rhanbarthol hwn ers ei ddechrau yn 2015.

Cynhaliwyd yr arolygiad rhwng 28 Tachwedd a 19 Rhagfyr 2017 gyda chyfweliad ychwanegol yn cael ei gynnal ar 8 Ionawr 2018.

Casglwyd gwybodaeth ar gyfer yr adroddiad hwn o’r ffynonellau canlynol:

- Gwnaeth y gwasanaeth gwblhau hunanasesiad a datganiad data.
- Bu i arolygwyr adolygu nifer o bolisïau a gweithdrefnau a data ar y gweithlu.
- Gwnaethom ddarllen 21 ffeil achos gan gynnwys wyth ffeil olrhain achosion; gan gyfweld â gweithwyr cymdeithasol, rheolwyr tîm a mabwysiadwyr (lle roeddent ar gael).
- Cynhaliwyd cyfarfodydd gyda:-
    - Tri aelod etholedig (un o bob awdurdod lleol).
    - Pennaeth gwasanaethau plant pob un o'r tri awdurdod lleol partner.
    - Cadeirydd ac aelodau'r bwrdd rheoli rhanbarthol yn cynrychioli Asiantaethau Mabwysiadu Gwirfoddol ac asiantaethau partner.
    - Aelodau staff yn unigol ac fel tîm.
    - Y rheolwr tîm rhanbarthol.
    - Dau reolwr tîm a chynghorwyr gwasanaethau cymorth mabwysiadu.
    - Un o'r cynghorwyr meddygol.
    - Cadeirydd y panel maethu.
    - Grŵp o aelodau o’r panel.
    - Cynghorydd cyfreithiol Castell-nedd Port Talbot, Prif Swyddog Abertawe a chydlynydd LACE Castell-nedd Port Talbot fel grŵp.
- Cyfarfodydd gyda phedwar mabwysiadwr a grŵp cymorth mabwysiadu.
- Mynychu panel mabwysiadu.
- Cwblhawyd holiaduron gan saith mabwysiadwr ac wyth aelod panel mabwysiadu.

Ceir gwybodaeth bellach am yr hyn yr ydym yn ei wneud ar ein gwefan
www.arolygiaethgofal.cymru  www.careinspectorate.wales